# Pennod 4
# Darpariaeth gofal ac addysg i blant ifanc yn Nghymru
## Golwg ar yr hanes diweddar

Siân Wyn Siencyn a Sally Thomas

Yn ystod y degawd a mwy diwethaf, mae Cymru wedi sefydlu ei blaenoriaethau cadarn ei hun ym maes darpariaeth addysg a gofal i blant ifainc. Arweiniodd gweithredu Deddf Llywodraeth Cymru 1999, ar lawer cyfrif, at Gymru hunan-lywodraethol yn enwedig ym meysydd addysg a gwasanaethau eraill i blant ifainc a theuluoedd.  Yn wir, erbyn 2003, roedd Cymru yn cyflwyno ei chynigion radical ei hun dros gwricwlwm blynyddoedd cynnar sydd yn seiliedig ar chwarae fel cyfrwng i hyrwyddo dysgu plant hyd at 7 oed. Caiff datganoli ei ddatblygu ymhellach drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sydd yn rhoi grym sylfaenol ac arwyddocaol dros ei faterion domestig ei hun, yn cynnwys gwasanaethau addysg ac iechyd, i Gynulliad Cymru.

.

### Poblogaeth Cymru

Gwlad fechan yw Cymru, ac yn 2004 roedd ei phoblogaeth ychydig yn llai na 3 miliwn, sef bron 5 y cant yn fwy na'r boblogaeth ym 1981. Canolir poblogaeth Cymru o gwmpas canolfannau trefol Caerdydd a Chasnewydd yn y de-ddwyrain, Abertawe yn y de-orllewin, a Wrecsam yn y gogledd-ddwyrain. Yr ardal lle gwelir y twf mwyaf o ran poblogaeth yw Ceredigion  Gwelwyd cynnydd o 27.6  y cant yn y boblogaeth er 1981 a hynny oherwydd y mewnfudo o Loegr yn bennaf.   Mae cyfrol Clark a Waller (2007) yn cynnig cymhariaethau diddorol rhwng gwledydd Prydain o nifer o safbwyntiau cyffredinol, megis poblogaeth, ond sydd hefyd yn rhoi sylw penodol i gymharu polisi a darpariaeth gofal ac addysg plant yng Nghymru, Gweriniaeth Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Lloegr, a'r Alban.

Yng Nghymru, mae oddeutu 33,500 o blant 3 oed a thua 75,000 o blant o dan 5 oed. O'r cyfanswm poblogaeth, mae tua 19 y cant o dan 16 oed.  Mae cyfraddau marwolaethau babanod yn sylweddol is na 30 mlynedd yn ôl. (Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, 2004).

Mae nifer y plant  o dan 5 mlwydd oed wedi gostwng dros y ddeng mlynedd ddiwethaf ac amcangyfrifir y bydd nifer y plant 1-15 mlwydd oed yn is eto yn 2010 gan fod nifer y genedigaethau yn is yn awr na'r hyn a fu mewn bron 30 o flynyddoedd.  Caiff y gostyngiad yma mewn genedigaethau effaith, wrth gwrs, ar wasanaethau.  Gwelir eisoes, yn yr ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, tyndra rhwng rhai sydd am gadw ysgolion bychain ar agor tra bod awdurdodau addysg am eu cau.

Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2005, roedd 2269 o blant ar gofrestrau diogelu plant yng Nghymru sef cynnydd o 5 y cant o'i gymharu â 31 Mawrth 2004. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd o 35 o blant y 10,000 o ran poblogaeth o dan 18 oed.  O'r plant sydd ar y cofrestrau, mae 70 y cant yn 9 oed neu iau.(http://new.wales.gov.uk/topics/statistics)

**Darpariaeth gofal ac addysg plant ifainc**

Ymddengys bod yr arfer o ofalu am blant tu allan i'r teulu yn un cymharol newydd yng Nghymru. Er enghraifft, ym 1986 dim ond un lleoliad cofrestredig y gwyddys amdano yng Nghymru oedd yn cynnig gofal dydd llawn. Yn draddodiadol, byddai rhieni oedd yn gweithio yn gwneud trefniadau gofal plant yn anffurfiol gydag aelodau o'r teulu neu yn fwyaf tebygol, byddai mamau yn rhoi'r gorau i'w swyddi i ofalu am eu babanod a'u plant ifainc.  Roedd gofal sesiynol yn fwy cyffredin, er enghraifft roedd gan Fudiad Ysgolion Meithrin tua 70 o gylchoedd meithrin pan gafodd ei sefydlu ym 1971, ac erbyn diwedd y 1980au roedd y ffigwr hwn wedi codi i tua 800.

Bu newid mawr dros yr ugain mlynedd diwethaf. Dyma wybodaeth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) am gofrestriadau ar gyfer 2006:

Tabl 1:  Math a niferoedd o ddarpariaeth

| ***Math o ddarpariaeth*** | ***Nifer y lleoliadau*** |
|---|---|
| Gofal dydd llawn | 471 |
| Meithrinfeydd | 78 |
| Gofal dydd sesiynol | 809 |
| Gwarchodwyr plant | 2332 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 93 |
| Darpariaeth y tu allan i'r ysgol | 577 |

(Ffynhonnell: ASG, 2006)

Fodd bynnag, mae darpariaeth gofal plant yn dal yn anghyson. Darganfu adroddiad gan Sefydliad Bevan (2006) sef *Chwyldro ym Maes Gofal Plant yng Nghymru,* mai dim ond un lle gofal plant sydd ar gyfer pob saith plentyn o dan 8 mlwydd oed ledled Cymru gyfan. Hefyd, mae llawer llai o leoedd gofal plant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig: ym Mlaenau Gwent, er enghraifft, dim ond un lle sydd ar gyfer pob ugain o blant. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y rhwystrau sydd i ofal plant:

- **Prinder (argaeledd) –** Er enghraifft, mae 5,800 o blant dan 8 oed ym Merthyr Tudful ond dim ond 497 o leoedd gofal plant ac 14 o warchodwyr plant sydd yno.
- **Tlodi ac Anfantais –** Yr ardaloedd lle bydd plant yn fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi a lle bydd rhieni yn llai tebygol o fod yn gweithio sydd yn cynnig y lleiaf o gymorth er mwyn mynd i'r afael â thlodi teuluol a chael swyddi i rieni.
- **Costau Uchel –** Cost gofal plant ffurfiol, ar gyfartaledd, yw £134 yr wythnos i bob plentyn. Mae hwn tu hwnt i afael y teuluoedd hynny sydd ei angen fwyaf.
- **Diffyg Hyblygrwydd –** Nid yw darpariaeth gofal plant 'naw-tan-bump' yn cyfateb i alwadau'r farchnad waith leol ar gyfer gweithio shifftiau

(Adroddiad Bevan, 2006: 5)

Un prosiect arbennig, wedi'i ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, yw prosiect ***Genesis***. Fe'i sefydlwyd, fel prosiect peilot yn wreiddiol, yn Rhondda Cynon Taf yn 2002 ond erbyn hyn mae'n weithredol ledled Cymru. Mae nodau Genesis Cymru yn glir: lleihau'r rhwystrau mae rhieni yn eu hwynebu naill ai wrth geisio dychwelyd i addysg neu ddychwelyd i'r gwaith. Gall y cymorth sydd ar gael drwy'r prosiect gynnwys gofal plant yn rhad ac am ddim neu wasanaeth meithrinfa symudol, ac mewn rhai ardaloedd, mae'r prosiect yn rhedeg ei feithrinfeydd dyddiol cymunedol ei hun.

Mae cael gwybodaeth ddibynadwy ynglŷn â niferoedd plant teirblwydd oed mewn darpariaeth a gynhelir ac nas cynhelir yn achosi problem. Mae addysg statudol yng Nghymru yn dechrau yn y tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd plentyn, er bod y mwyafrif helaeth o blant yn dechrau ysgol llawer cyn hyn. Ar ben hynny, gall plant fod yn ddefnyddwyr rhan amser o ddau wasanaeth neu hyd yn oed fwy na hynny. Gall plentyn, er enghraifft, fod wedi'i gofrestru gyda gwarchodwr plant a fydd yn mynd â'r plentyn i'r cylch meithrin yn y bore ac i'r ddarpariaeth meithrin rhan amser mewn ysgol gynradd yn y prynhawn. Dyna'r un plentyn yn cael ei gofrestru gyda thri gwasanaeth gwahanol.

| | |
|---|---|
| Darpariaeth a gynhelir<br>*(maintained provision)* | Yn cael ei chynnal gan Awdurdodau Addysg Lleol, er enghraifft:<br>• Dosbarth meithrin mewn ysgol<br>• Dosbarth derbyn mewn ysgol<br>• Uned feithrin yn rhan o ysgol |
| Darpariaeth nas gynhelir<br>(*non-maintained provision*) | Yn cael ei chynnal gan y sector gwirfoddol neu'r sector breifat, er enghraifft:<br>• Cylch meithrin<br>• Gwarchodydd plant<br>• Meithrinfa ddydd |

Tabl 2: Plant o dan bump a darpariaeth a gynhelir yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Nifer yr ysgolion meithrin | 40 |
| Nifer y plant mewn ysgolion meithrin | 2,225 |
| Nifer yr athrawon amser llawn mewn ysgolion meithrin | 91 |
| Nifer y cynorthwywyr meithrin cymwysedig mewn ysgolion meithrin | 103 (cyfwerth ag amser llawn) |
| Nifer y cynorthwywyr meithrin heb gymhwyster | 14 |
| Nifer yr ysgolion cynradd | 1,624 |
| Nifer y disgyblion | 282,576 |
| Nifer yr athrawon amser llawn mewn ysgolion cynradd | 12,904 |
| Nifer yr ysgolion cynradd a gynhelir sydd â disgyblion meithrin | 1,238 |
| Nifer y plant 3 a 4 oed mewn darpariaeth addysg a gynhelir (naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser) | 70,300 |
| Nifer y lleoedd cofrestredig i blant 5 oed mewn cyfleusterau gofal dydd | 35,914 |
| Nifer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a gynhelir | 442 (27.2 y cant o'r holl ysgolion) |

(Ffynhonnell: Ystadegau Addysg Allweddol yng Nghymru 2004)

**Yr Iaith Gymraeg**

Gwelwyd dros y degawdau diwethaf gynnydd gobeithiol yn nifer y siaradwyr Cymraeg a hynny yn bennaf ymhlith plant a phobl ifainc. Mae canlyniadau cyfrifiad 2001 yn dangos cynnydd sylweddol yn niferoedd y bobl sydd yn siarad Cymraeg: mae mwy nag 20 y cant o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru erbyn hyn o'i gymharu ag 18.5 y cant yng nghyfrifiad 1991. At hyn, mae mwy nag 28 y cant o'r boblogaeth yn adrodd eu bod yn deall Cymraeg. O'r holl boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd adroddodd 582,400 (20.8 y cant) eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 508,100 (18.7 y cant) a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg ym 1991. Gwelir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg ymhlith plant: 40.8 y cant o ran plant rhwng 5 – 15 oed. Yn ne-ddwyrain Cymru gwelir y cynnydd mwyaf. Mae'r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ddwyieithog, ag eithrio rhai plant ifainc iawn a rhai pobl hŷn.

Diogelir statws y Gymraeg mewn deddfwriaeth, er enghraifft sicrhaodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 1999 bod yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin 'ar sail eu bod yn gyfartal'.  Ond mae cryn drafodaeth yn parhau ynghylch ystyr ymarferol y term ac ynghylch y cyfyngiadau sydd yn parhau mewn perthynas â derbyn gwasanaethau Cymraeg.

> Nid oes…cymal cyffredinol (o dan y Ddeddf Iaith) sydd yn gwarantu hawl unigolyn i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu hymwneud ag unrhyw gorff cyhoeddus (yn wahanol i Gatalonia), nac ychwaith i fynnu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant.
>
> *There is…no general clause (under the Language Act) which guarantees an individual the right to use the Welsh language in their interactions with any public body (unlike in Catalonia), or to insist on a Welsh medium education for their children.*
>
> (May, 2001: 265)

Gyda chynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu addysg feithrin rhan amser rhad ac am ddim i blant tair oed yng Nghymru, daeth yn amlwg, mewn rhai ardaloedd, nad oedd hyn yn cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg.  Yn Ebrill 2007, yn ardal Pontypridd o Rondda Cynon Taf, er enghraifft, nid oedd un cylch meithrin na feithrinfa dydd cyfrwng Cymraeg wedi eu cynnwys ar y rhestr o ddarparwyr cofrestredig.   Gan bod yr ysgolion cynradd Cymraeg yn methu derbyn rhagor o blant i'w meithrinfeydd, roedd rhaid i rieni oedd am gael darpariaeth feithrin Gymraeg i'w plant dalu amdano tra bod y ddarpariaeth Saesneg ar gael yn rhad ac am ddim.

**Mudiad Ysgolion Meithrin**

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) wedi chwarae rhan allweddol yn y twf aruthrol sydd wedi bod yn y galw am addysg Gymraeg.  Mae tua 35 y cant o blant 3 blwydd oed yng Nghymru mewn lleoliadau meithrin sydd yn eu trochi yn y Gymraeg (wrth gwrs, mewn rhai ardaloedd mae'n agosach at 90 y cant) a gellir priodoli llawer o hyn i gyfraniad MYM. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu MYM yn datblygu ei ddiddordebau i gynnwys meithrinfeydd dyddiol cyfrwng Cymraeg a gwelir tri yn weithredol ar hyn o bryd ac eraill ar y gweill.   At hyn, mae Mudiad Ysgolion Meithrin hefyd wedi datblygu i fod yn asiantaeth hyfforddi bwysig ym maes addysg a gofal plant yng Nghymru a hynny, wrth gwrs, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae MYM hefyd wedi bod yn flaengar iawn ym maes darpariaeth i blant ag anghenion arbennig. Mae'r Mudiad wedi arloesi gyda phartneriaethau cynlluniau cyfeirio ers y 1980au (cyfeirir at hyn ymhellach yn y bennod hon). Roedd gan MYM ymroddiad cadarn i athroniaeth ac egwyddorion integreiddio (dyna oedd y term y pryd hynny) a chynhwysiant o'r cychwyn. Mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'r lobi sydd yn ceisio sicrhau cyflenwad digonol o staff arbenigol Cymraeg (Stevens, 2002; Williams, 2002).

**Iaith Pawb**

*Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (LlCC, 2003) yw'r cynllun sy'n amlinellu bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer normaleiddio ac ehangu dwyieithrwydd yng Nghymru. Er bod iddo gwmpas eang, o adfywiad economaidd a chymunedol i weithgareddau diwylliannol, ceir pwyslais arbennig ar bwysigrwydd allweddol plant yn y blynyddoedd cynnar:

> Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi pwys mawr ar ddatblygu darpariaeth yn Gymraeg ar gyfer y **blynyddoedd cynnar** (0-5 oed). Mae'n fantais enfawr os gall plant ifainc ddysgu siarad Cymraeg yn naturiol o fewn y teulu. I blant gyda rhieni di-Gymraeg, mae addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn ddull arbennig o effeithiol o'u galluogi i ddod yn ddwyieithog.
> (LlCC, 2003: 39)

Cafwyd cyllid o dan *Iaith Pawb* i ddatblygu cynllun o'r enw *Geiriau Bach* yng Ngholeg y Drindod. Nod y prosiect yma yw lledaenu defnydd o'r Gymraeg mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar a hynny mewn darpariaeth fyddai fel arfer yn defnyddio Saesneg yn unig. Dyma weld, felly, y bwriad o ddwyieithogi'r sector Saesneg tra, ar yr un pryd, ddiogelu'r sector Cymraeg.

**Twf**

Nod *Twf*, sef prosiect tymor hir a ariennir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan *Iaith Pawb,* yw rhannu gwybodaeth gyda rhieni a darpar rieni ynglŷn â manteision magu plant yn ddwyieithog. Mae staff maes *Twf* yn gweithio'n agos gydag ymwelwyr iechyd a bydwragedd a chydag amrywiaeth o sefydliadau a mentrau blynyddoedd cynnar, yn cynnwys grwpiau Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru, gweithwyr Iaith a Chwarae'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol, a MYM er mwyn hybu dwyieithrwydd cynnar o fewn y teulu.

**Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru**

Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2001, mae 2.1 y cant o boblogaeth Cymru, sef bron 62,000 o bobl, yn dod o gefndir lleiafrifol ethnig. Fel yng ngwledydd eraill Prydain (er enghraifft, mae 45 y cant o'r holl leiafrifoedd ethnig yn Lloegr yn byw yn Llundain), mae dwyster niferoedd pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn byw yn ardaloedd trefol De Cymru. Yng Nghaerdydd y ceir y nifer a'r canran uchaf o ran poblogaeth (sef 25,700 ac 8.4 y cant) yna Casnewydd (6,600 a 4.8 y cant). Ynys Môn sydd â'r nifer isaf, sef 500 o bobl (0.7 y cant) o leiafrifoedd ethnig. Bu rhywfaint o ddadlau'n ddiweddar ynglŷn â bywyd ethnig-wledig. Bu hyn mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan Trevor Phillips, Cadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ynglŷn ag ardaloedd gwledig a ganfyddir fel ardaloedd gwaharddedig i bobl o leiafrifoedd ethnig (bbc.co.uk/wales).

**Tlodi plant yng Nghymru**

Mewn cynhadledd yn dwyn yr enw *"Tlodi Plant yng Nghymru – Llawer o Waith i'w Wneud"* yn Ionawr 2005, dywedodd Lucy Akhtar o Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, sef cynghrair o'r prif sefydliadau statudol ac elusennol yng Nghymru:

> Fe erys y ffaith foel mai gan blant yng Nghymru y mae'r lles gwaethaf yn y Deyrnas Gyfunol
>
> (Akhtar, 2005)

Fodd bynnag, awgryma ymchwil a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree i eithrio cymdeithasol yng Nghymru (Kenway, Parsons et. al. 2005) bod cyfraddau tlodi wedi gostwng yn gynt yn ystod y ddegawd olaf yng Nghymru na chyfraddau tlodi yn Lloegr neu'r Alban, ac nad ydyn nhw waeth, erbyn hyn, na'r cyfartaledd i'r Deyrnas Unedig gyfan. Ond mae un ym mhob pedwar plentyn yn dal i fyw mewn teuluoedd tlawd, a cheir lefelau arwyddocaol o dlodi trwy'r wlad: yn fras mae traean y 170,000 o blant sydd mewn cartrefi o dan y trothwy tlodi yn byw yn y Cymoedd, traean yng Nghaerdydd a gweddill De Cymru, a thraean yng Ngogledd, Gorllewin a Chanolbarth Cymru.

Heblaw am hynny, darganfu'r ymchwil

> …er bod mesur confensiynol tlodi (aelwydydd islaw 60 y cant o'r incwm canolrifol yn y Deyrnas Unedig) wedi gwella dros y degawd diwethaf, mae'r niferoedd yng Nghymru sydd yn byw mewn 'tlodi enbyd' (40 y cant o incwm aelwyd canolrifol) heb newid, o gwmpas 250,000.
>
> (Kenway, Parsons, et.al. 2005: 23)

Mae digartrefedd yng Nghymru wedi codi'n sydyn, gan ddyblu o 8,000 yn 2000 i 16,000 yn 2004. Mae traean y bobl ddigartref yn deuluoedd sydd â phlant. Problem allweddol arall sydd yn wynebu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi yw trafnidiaeth a chael defnydd rhwydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Rhieni sengl yw'r grŵp sydd fwyaf tebygol o fod heb gar a mynegodd y rhain anawsterau arwyddocaol wrth geisio cyrraedd siopau ac ysbytai lleol.

> Er bod tlodi ac anfantais ar eu huchaf yn y Cymoedd, mae ein hadroddiad yn dangos bod pobl ymhob rhan o Gymru yn wynebu'r problemau hyn.
>
> (ibid: 10)

Mae Grŵp Gweithredu Tlodi Plant Cymru yn cynnig y darlun canlynol o gyfleoedd bywyd plant tlawd yng Nghymru. Mae plant tlawd yng Nghymru:

- yn fwy tebygol o gael eu geni'n gynamserol ac o fod yn pwyso llai ar enedigaeth
- 15 gwaith yn fwy tebygol o farw mewn tân gartref
- 5 gwaith yn fwy tebygol o farw mewn damwain
- 3 gwaith yn fwy tebygol o gael eu taro gan gar
- 10 gwaith yn fwy tebygol o feichiogi yn eu harddegau
- yn fwy tebygol o ddioddef o lefelau uchel o ordewdra
- yn llai tebygol o barhau yn yr ysgol neu fynd i addysg uwch
- yn fwy tebygol o adael ysgol heb ddim neu ychydig o gymwysterau

(Grŵp Gweithredu Tlodi Plant Cymru 2006: 6)

## Plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn gwneud darpariaeth *yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig yn Lloegr a Chymru yn unig* (www.opsi.gov.uk/acts). Prin yw'r gwahaniaeth felly rhwng Cymru a Lloegr o ran y ddeddfwriaeth sydd yn ymwneud ag AAA. Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) sy'n rhoi'r canllawiau a'r gweithdrefnau i Gymru. Gwelir y Cod cyflawn, yn Gymraeg ar:

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/4038211/481647/sen-code-practice/cover-w.pdf?lang=cy

Mae'r Cod, yn dyfynu Deddf Addysg 1996, yn diffinio AAA fel hyn:

> Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud darparaieth addysg arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blant anhawster dysgu:

a. Os ydyn nhw yn cael anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant yr un oed; neu
b. Os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o fath a ddarpaeririr yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg lleol
c. Os ydyn nhw o dan oed ysgol gorfodol a'u bod yn dod o fewn y diffiniad yn (a) neu (b) uchod neu y byddent yn gwneud hynny pe na wneid darparaieth addysgol arbennig ar eu cyfer.

(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004: 1)

Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn amlinellu sut y bydd plant ag AAA – mae'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael ei ddefnyddio'n fwy cyffredin yng Nghymru erbyn hyn nac AAA – yn cael eu cefnogi mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion trwy ddull graddoledig, er enghraifft mae'r Cod yn datgan:

> Cyn gynted ag y bydd ymarferwyr wedi canfod bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig, dylai'r sefydliad ymyrryd trwy *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar.* Os nad yw'r ymyrryd yn galluogi'r plentyn i wneud cynnydd boddhaol efallai y bydd angen i'r Cydlynydd AAA geisio cyngor a chefnogaeth asiantaethau allanol.  Cyfeirir at y mathau hyn o ymyriadau fel *Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy.*
>
> (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002: 32)

Ym mis Hydref 2003, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ddogfen ymgynghorol yn gosod canllawiau drafft ynglŷn ag addysg gynhwysol. Rhoddodd y ddogfen hon ganllawiau ynghylch dull gweithredu fframwaith statudol Deddf Addysg 1996 a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn ymarferol (LlCC, 2004: 14).

Mae'r ddogfen yn amlinellu ymrwymiad LlCC i addysg gynhwysol ac yn dynodi'r prif egwyddorion sydd yn cynnwys ymrwymiad cryf i ddarpariaeth prif ffrwd:

> Gyda'r hyfforddiant cywir, y strategaethau a'r gefnogaeth, gellir cynnwys bron pob plentyn a pherson ifanc sydd ag AAA yn llwyddiannus mewn addysg prif ffrwd.
>
> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004: 14)

Mae niferoedd y plant sydd â Datganiadau AAA wedi aros yn weddol gyson er 1991, er y bu gostyngiad arwyddocaol o ran ysgolion arbennig, yn adlewyrchu, wrth gwrs, yr

ymrwymiad i gynhwysiad. Roedd tua 25 y cant o'r datganiadau newydd yn 2004 ar gyfer plant o dan bump oed.

Yn 2003, gychwynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adolygiad polisi cynhwysfawr o anghenion addysgol arbennig yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf, sef *Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar* yn 2004. Darganfu'r adolygiad rai canfyddiadau a phrofiadau oedd yn peri gofid. Cafwyd, er enghraifft, bod llawer o rieni, yn aml, yn gweld y broses o chwilio am gyngor a chymorth arbenigol ar gyfer eu plentyn oedd ag AAA 'yn broses rhwystredig ac yn un oedd yn peri gofid' (LlCC, 2004: 8). At hyn, o blith y rhieni nad oedden nhw'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf, dim ond rhyw draean oedd yn teimlo ei bod yn hawdd cael gafael ar y cymorth oedd ar gael, a phan ofynnwyd iddyn nhw ystyried y ffactorau oedd yn rhwystro adnabyddiaeth gynnar o AAA dywedodd

> ...mwyafrif llethol y rhieni mai prinder staff arbenigol oedd y mater mwyaf allweddol, a'r prinder therapyddion lleferydd ac iaith yn arbennig. Ystyriwyd bod y sefyllfa o ran y ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg, a'r ddarpariaeth ar gyfer plant a rhieni nad oeddent yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, yn enbyd.
>
> (ibid:  9)

Gwelwyd, fodd bynnag, bod y sector gwirfoddol yn darparu gwasanaethau gwerthfawr oedd yn rhoi cyfleoedd i rieni 'drafod eu pryderon gydag arbenigwyr a rhieni eraill'. Mae'r sector gwirfoddol, yn enwedig y bartneriaeth rhwng Mudiad Ysgolion Meithrin a Chymdeithas Grwpiau Chwarae Cyn-ysgol Cymru, wedi hen sefydlu cynlluniau cyfeirio sy'n gweithredu ar lefel sirol, ac sydd yn galluogi cynhwysiad cynnar plant ifainc ag anghenion arbennig yn eu darpariaeth gymunedol. Gall hyn olygu ariannu staff ychwanegol, cyfarpar arbenigol, neu gludo plant i gylch meithrin.

Er 1993, bu hawl gan rieni i apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau addysg lleol ynglŷn ag AAA eu plant. Roedd gan y corff annibynnol hwn awdurdod yn Lloegr a Chymru. Fodd bynnag, daeth yn fwyfwy amlwg gyda chyhoeddi Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn 2002 bod angen Tribiwnlys ei hun ar Gymru. Sefydlwyd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) ar Ebrill 1 2003.

Bu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i blant sydd ag anghenion arbennig yn destun pryder cyson dros y blynyddoedd.  Er enghraifft, mae addasrwydd iaith cyflwyno therapi iaith a lleferydd yn fater dadleuol. Mae pwysau o du rhieni am wasanaethau priodol, gyda chefnogaeth mudiadau gwirfoddol megis MYM, yn parhau. Comisiynwyd adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i blant ag anghenion addysgol arbennig gan LlCC, trwy gyfrwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2002). Mae LlCC nawr wedi cyhoeddi *Cydnabod Angen: Cynllun Gweithredu* (LlCC, 2006) sydd yn gosod ei argymhellion i sicrhau darpariaeth deg i blant sydd yn siarad Cymraeg a phlant dwyieithog.

Erbyn 2008, mae'n fwriad gan LlCC i sicrhau trefniadau ar gyfer comisiynu ar y cyd yr holl wasanaethau ar draws iechyd, addysg, a gwasanaethau cymdeithasol, drwy un drefn gyllido. Y gobaith yw bod y cynllun Plant a Phobl Ifanc hyn yn ei gwneud hi'n haws gweithio'n rhyng-asiantaethol, ac o ganlyniad bydd bywydau plant ifainc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau, ynghyd â bywydau eu teuluoedd, ychydig yn well a llai gofidus.

### Datblygu gwasanaethau gofal ac addysg - hanes diweddar

Erbyn diwedd y 1980au roedd tystiolaeth sylweddol a swmpus o blaid ariannu addysg feithrin yn gyhoeddus. Cyhoeddwyd canlyniadau ymchwil Weikart ar gynnydd plant a addysgwyd dan fentrau *Head Start* sef cynlluniau meithrin Arlywyddion John Kennedy a Lyndon Johnson yn y 1960au yn Unol Daleithiau America - yr *High/Scope Perry Prosiect*. (www.highscope.org/Research/PerryProsiect/perrymain.htm). Roedd y rhain yn cyflwyno dadl rymus iawn dros fuddsoddiad cymdeithasol ac economaidd mewn addysg feithrin o safon uchel. Ym 1995, cydsyniodd llywodraeth Geidwadol Prydain â'r ddadl o blaid ymrwymo cyllideb gyhoeddus i addysg feithrin. Roedd hyn yn gam radical ymlaen o safbwynt Lloegr ond nid felly i Gymru. Roedd bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn draddodiadol wedi darparu lleoedd mewn ysgolion i blant 4 oed.  Yn wir, roedd rhai awdurdodau addysg lleol (yn arbennig Gorllewin Morgannwg yn y de a Chlwyd yn y gogledd) wedi ariannu addysg i blant o 3 blwydd oed am y rhan fwyaf o'r 1970au a'r 1980au.

Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol y Swyddfa Gymreig sef *Cyfarwyddyd ar gyfer Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn Lleol yng Nghymru* (1999)

oedd yn amlinellu bwriad y llywodraeth i sefydlu partneriaethau blynyddoedd cynnar o dan *remit* gwaith awdurdod lleol. Daeth yn gynyddol amlwg y byddai'r disgwyliadau, o ganlyniad i ariannu helaeth gan y llywodraeth ar gyfer darpariaeth addysgol i blant ifanc, yn golygu proffesiynoli'r sector gwirfoddol os oedd am oroesi'r newidiadau ysgubol hyn.

Yn gynnar ym 1996, cyflwynwyd cynllun talebau fel bod rhieni yn medru dewis naill ai ysgolion a gynhelir neu nas cynhelir ar gyfer eu plant. Un o gamau cyntaf y Llywodraeth Lafur newydd wedi etholiad cyffredinol 1997 oedd diddymu talebau – er mawr groeso ym mhobman bron yng Nghymru.

Er mwyn derbyn statws lleoliad cymeradwy (*approved setting*), bu'n rhaid i'r ddarpariaeth a gynhelir (oedd wedi'u cymeradwyo'n *de facto* oherwydd ei statws fel darpariaeth statudol) a'r ddarpariaeth nas cynhelir gydymffurfio â fframwaith *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (ACAC 1996 a ychwanegodd *gymwysterau* i'w gyfrifoldebau yn ddiweddarach a chael ei adnabod fel ACCAC).  Gwelwyd hefyd, gyda dyfodiad y cwricwlwm hwn ym 1996 i blant o dan oedran addysg orfodol, fod Cymru a Lloegr yn gwneud pethau mewn modd gwahanol. Mae'r *Canlyniadau Dymunol* yn dal i gael ei ddefnyddio yng Nghymru er i'r ddogfen gael ei haddasu er mwyn cynnwys newidiadau Y Cyfnod Sylfaen. Croesawyd cyhoeddiad y *Canlyniadau Dymunol* ym mhobman yng Nghymru, oherwydd ei ffocws ar y plentyn fel dysgwr, ei ddathliad cadarn o werth chwarae wrth i blentyn ddysgu ynghyd â'r ffaith ei fod yn dechrau trwy ddyfynnu dwy linell o awdl fawr Gerallt Lloyd Owen *Afon*. Nid yr un oedd yn wir am y ddogfen, *Desirable Learning Outcomes for Children before Statutory School Age* (SCAA 1996), sef dogfen ar gyfer Lloegr. Yn wir, dywedodd David (1998) wrth gymharu dogfen Lloegr â dogfen Cymru:

> Beth rydym i'w wneud o'r gwahaniaeth mawr mewn agwedd rhwng y dogfennau yma?  A yw disgwyliadau cenedlaethol, hynny yw y modd y gwelir plentyndod a'r modd y caiff plentyndod ei hadeiladau, yn wahanol…
>
> Mae'n ymddangos bod plentyndod dan bump yn Lloegr yn llai hwyliog, yn llai dychmygus, llai rhamantus, yn cael ei ddathlu llai, mae mwy o bwysau ar blant,  mae yna fwy o hualau…na sydd yng Nghymru.
>
> *What are we to make of the stark contrast in the approach reflected in the two sets of documentation?...Is it that national expectations, in other words the constructions of childhood,  are different…*

> *It would seem that being under five in England is to be less joyful, less celebrated, less imaginative, less romantic, more pressurised, more rigid…than in Wales.*
>
> (David, 1998: 61)

Cymaint oedd y feirniadaeth o ddogfen SCAA fel y'i disodlwyd yn gyflym gan y ddogfen *Early learning goals* (QCA, 1999) sydd wedi'i thrawsffurfio bellach i *Guidance for the Foundation Stage* (QCA, 2000) a pharhau mae esblygiad y cwricwlwm cynnar yn Lloegr.

Cyfeiriodd y ddogfen *Canlyniadau Dymunol* yng Nghymru at ddarpariaeth Gymraeg a'r disgwyl y byddai holl blant Cymru yn cael rhywfaint o brofiad o'r Gymraeg yn ystod eu hamser mewn darpariaeth i rai o dan bump oed:

> Gall profiad o'r Gymraeg yn ifanc, pan fydd sgiliau caffael iaith plentyn ar eu mwyaf effeithiol, fod yn sail werthfawr ar gyfer dysgu Cymraeg yn yr ysgol.
>
> Dylai pob plentyn o dan bump gael cyfle i glywed am Gymru, am ei gynefin, am draddodiadau, hanesion a chwedlau, am bobl ac am ddigwyddiadau. Dylai'r profiadau yma fod yn rhan o brofiad dysgu bywiog a gwerthfawr i blant dan bump yng Nghymru. Bydd yn dyfnhau profiad y plant o fywyd yng Nghymru.
>
> (ACCAC 1996; 6)

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn statws lleoliad cymeradwy, roedd yn rhaid i'r ddarpariaeth gydymffurfio â chanllawiau arolygu addysg blynyddoedd cynnar SPAEM (Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a ddaeth yn *Estyn* yn ddiweddarach). Roedd y rhain yn cynnwys adran ar brofiadau o'r iaith Gymraeg a'r Cwricwlwm Cymreig - sef y maes dysgu hwnnw sydd yn ymwneud yn unigryw â Chymru a'r hunaniaeth Gymreig - a ddarperir i blant o fewn y lleoliad. Pan fodlonwyd yr holl ofynion hyn (staff cymwysedig, cymhareb oedolion:plant, ystod y profiadau a gynigir, adeiladau ac amgylchedd, cyfarpar ac yn y blaen), byddai'r ddarpariaeth yn gymwys i dderbyn y £1100 y plentyn o dan bedair y byddai'n rhaid i rieni "wario'r" daleb fel petai yn y lleoliad cymeradwy arbennig hwnnw. Fodd bynnag, gan fod dros 90 y cant o blant pedair oed eisoes mewn darpariaeth a gynhelir yng Nghymru (hynny yw, roeddent mewn ysgolion), roedd yr ymarfer yn gymharol ddiystyr yng Nghymru.

Mae'r ddogfen *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3 - 7 oed (*LlCC, 2003*),* yn dynodi gwahaniaeth pellach i Gymru, nid yn unig o ran trefniadaeth y cwricwlwm ond hefyd o ran yr ethos a'r egwyddorion sy'n sylfaen i'r cwricwlwm hwnnw. Ceir felly, wahaniaethau sylfaenol rhwng Y Cyfnod Sylfaen (*Foundation Phase*) yng Nghymru a'r *Foundation Stage* yn Lloegr.  Mwy am hynny yn ddiweddarach.

### Comisiynydd Plant cyntaf gwledydd Prydain

Am flynyddoedd, roedd Cymru yn gwbl argyhoeddedig o'r angen am ei chomisiynydd plant ei hun. Roedd hyn yn unol â'r meddylfryd Ewropeaidd, a chafwyd lobïo cyson ac angerddol am flynyddoedd lawer i wireddu hyn. Bu Plant yng Nghymru, sef yr hyn oedd yn cyfateb yng Nghymru i'r *National Children's Bureau* yn Lloegr, yn allweddol wrth ennyn cefnogaeth a rhoi'r lobïo yma ar waith. Y broblem gyson oedd diffyg pwerau deddfwriaethol a chyndynrwydd llywodraethau San Steffan i ymateb i'r lobïo hyn.  Ni fynnai llywodraethau Thatcher na Major ildio ar y mater hwn ac er mawr siom, ni wnaeth llywodraeth Llafur Newydd chwaith yn dilyn etholiad 1997. Ond roedd aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn llawer mwy ymrwymedig i'r syniad o gael rhywun annibynnol a fyddai'n sefyll dros hawliau plant a phobl ifanc.   Erbyn hyn mae Comisiynydd Plant ar gyfer pob gwlad ym Mhrydain.

Cyhoeddiad arloesol oedd Adroddiad Waterhouse *Lost in Care* (Adran Iechyd, 2000) a gyhoeddwyd wedi ymchwiliad hir i gamdriniaeth plant mewn cartrefi a reolwyd gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn ystod y 1970au. Roedd cryn dicter ymhlith y cyhoedd nid yn unig oherwydd y modd y cafodd y plant brau yma eu trin ond hefyd oherwydd nad oedd yr awdurdodau wedi gweithredu ac ymateb i gwynion y plant. Roedd y plant yma yn gwbl ddi-rym mewn sustem oedd wedi methu'n enbyd a'i diogelu. Argymhelliad cyntaf Waterhouse oedd bod Cymru yn cael Comisiynydd Plant ac roedd Deddf Safonau Gofal 2000 yn cynnig cyfle deddfwriaethol i greu'r swydd.

Dechreuodd Peter Clark ar ei waith fel Comisiynydd Plant cyntaf Cymru, yn addas iawn, ar Fawrth 1, Dydd Gŵyl Ddewi, 2001. Fe'i penodwyd yn dilyn cyfres o gyfweliadau, yn cynnwys un cyfweliad gan banel o blant a phobl ifainc.

Er bod fframweithiau deddfwriaethol San Steffan yn parhau i gyfyngu ar Gymru, mae gennym ni ein gwerthoedd ein hunain yn ymwneud â materion megis curo plant. Lansiwyd *Sdim Curo Plant! Cymru* ym Medi 2000 fel corff cydgysylltu Cymru i'r lobi i newid y ddeddf ar guro plant. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ers ei sefydlu, wedi ymrwymo'n gadarn i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac i amcanion Sdim Curo Plant! Cymru.

Mewn dadl lawn ar 14 Ionawr 2004 ynglŷn â'r Papur Gwyrdd "Mae Pob Plentyn yn Bwysig" pleidleisiodd aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol o blaid gwahardd curo plant o 41 pleidlais i 9. Y cynnig a dderbyniwyd oedd bod y Cynulliad:

> …yn gresynu bod llywodraeth y DU yn parhau i amddiffyn cosbedigaeth resymol (*reasonable chastisement*) ac nad yw wedi cymryd unrhyw gamau sylweddol tuag at atal cosbi plant mewn modd corfforol o fewn teuluoedd.

Mae ymdrechion *Sdim Curo Plant!* i sicrhau diogelwch cyfartal i blant yn y Mesur Plant, wedi methu hyd yn hyn. Yn lle hynny, mae llywodraeth San Steffan wedi cefnogi cymal newydd, Adran 58 o Ddeddf Plant 2004, sydd yn caniatáu parhau amddiffyn 'cosb resymol neu gerydd rhesymol'. Mae'n bosib y bydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Gymru wireddu ei gweledigaeth a'i gwerthoedd ei hun trwy wrthod, unwaith ac am byth, drefn sydd yn amddiffyn curo plant.

## Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3 - 7 oed

Ymddangosodd y cwricwlwm arfaethedig ar gyfer plant 3 - 7 oed ar ffurf dogfen ymgynghorol, *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3 - 7 oed,* yn Chwefror 2003 (LlCC, 2003). Rhagflaenwyd hon 18 mis yn gynt gan *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi* (LlCC, 2001a). Yn y rhagair i'r ddogfen hon, ysgrifennodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes:

> Rydym yn rhannu nodau strategol allweddol â'n cymheiriaid yn Lloegr – ond yn aml mae angen inni fynd ar hyd llwybr gwahanol i gyrraedd y nodau hyn. Byddwn yn cymryd ein cyfeiriad ein hunain o ran polisi lle y bo angen er mwyn cael y gorau ar gyfer Cymru. Mae'n iawn ein bod yn rhoi awdurdodau lleol, cymunedau lleol ac anghenion a blaenoriaethau a bennwyd yn lleol wrth graidd yr agenda ar gyfer ysgolion.
>
> (LlCC, 2001a: 2)

Mae’r *Cyfnod Sylfaen* wedi’i osod yn gadarn iawn yn nhraddodiad dysgu trwy chwarae ac mewn dealltwriaeth o natur gyfannol dysgu plant ifainc. Bydd ei weithredu yn arwain at ddiddymu Cyfnod Allweddol 1 a bydd, yn ôl pob tebyg, yn golygu tanseilio Cyfnod Allweddol 2.  Mae Cymru, wrth gwrs, eisoes wedi diddymu profion cenedlaethol statudol i blant 7-14 oed ac nid yw erioed wedi cefnogi tablau cynghrair ysgolion cynradd.

Mae’r *Cyfnod Sylfaen* yn argymell cwricwlwm sydd wedi’i gynllunio’n ofalus, ac sydd yn seiliedig ar chwarae, gan anelu at:

> …helpu plant i ddysgu sut i ddysgu; datblygu sgiliau meddwl; a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu gydol oes.
>
> (LlCC, 2003: 12)

Prif ffocws *Y Cyfnod Sylfaen* yng Nghymru yw *datblygiad personol, cymdeithasol a lles* plentyn a gosodir y rhain yn ganolog i’r cwricwlwm ac fe’u hystyrir yn sylfaenol i ddysgu plant ifainc. Roedd chwe maes dysgu yn nogfen wreiddiol Canlyniadau Dymunol (ACAC 1996):

- Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu,
- Datblygiad Mathemategol,
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd
- Datblygiad creadigol
- Datblygiad Corfforol

Mae’r *Cyfnod Sylfaen* erbyn hyn yn cynnwys saith maes dysgu, sef:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygu’r Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol

Gwelir bod maes dysgu Datblygu'r Gymraeg wedi ei ychwanegu*.* Mae hyn yn pwysleisio'r pwysigrwydd a rydd LlCC i Gymru fel cenedl ddwyieithog. Mae dogfen *Y Cyfnod Sylfaen* yn cydnabod nad yw dysgu cynnar da yn '*dibynnu'n benodol ar ddefnyddio un model cwricwlaidd penodol*' (LlCC, 2003:13). Fodd bynnag, dywed y

> ...ceir tystiolaeth y caiff cwricwlwm lle y mae'r plant yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gwaith…effaith gadarnhaol yn y tymor hir ar eu datblygiad cymdeithasol a deallusol.
>
> (ibid: 13)

Mae'r ddogfen yn gosod y fframwaith dysgu cynnar Cymreig newydd yn gadarn yn nhraddodiad gwledydd, ymarferwyr a chyfundrefnau eraill:

> Dengys arfer yn Nenmarc, yr Almaen, Reggio Emilia yn yr Eidal a Seland Newydd er enghraifft sut y gellir annog plant i wneud penderfyniadau am eu dysgu, i fod yn annibynnol ac yn weithgar yn gorfforol wrth wneud hynny.
>
> (ibid: 14)

Mae'r syniadaeth sydd wrth wraidd Y Cyfnod Sylfaen yn deillio hefyd o bryderon ynglŷn â'r math o brofiadau dysgu cynnar a gaiff plant ifainc yng Nghymru. Beirniadwyd yn bennaf y dull traddodiadol neu'r dull mwy ffurfiol sydd yn disgwyl i blant dreulio gormod o amser yn cyflawni tasgau di-fudd wrth eu byrddau heb gyfleoedd digonol i ddatblygu sgiliau iaith drwy siarad a sgwrsio am eu gweithgareddau. At hyn, mae'r ddogfen yn mynd rhagddi i bwysleisio tystiolaeth Estyn bod '*dim digon o bwyslais yn cael ei roi ar ddatblygu mynegiant creadigol a dealltwriaeth ddiwylliannol plant'* a phryder damniol bod plant yn cael eu cyflwyno i ddarllen ac ysgrifennu ffurfiol '*cyn eu bod yn barod'* (LlCC, 2003: 6).

Wedi cynllun peilot mewn 41 o leoliadau ledled Cymru, cafwyd archwiliad manwl o lwyddiant *Y Cyfnod Sylfaen.* Cyhoeddwyd adroddiad y tîm o ymchwilwyr profiadol dan arweiniad Iram Siraj-Blatchford a Kathy Sylva yn Chwefror 2006 o dan y teitl *Prosiect Monitro a Gwerthuso Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn Effeithiol (MEEIFP).* Mae'r canfyddiadau cyntaf yn galonogol iawn. Er enghraifft, ym mlwyddyn gyntaf gweithredu peilot Y Cyfnod Sylfaen nodwyd y cryfderau a ganlyn gan yr ymarferwyr:

- Cwricwlwm yn seiliedig ar chwarae, dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiad.
- Cwricwlwm plentyn-ganolog.
- Cwricwlwm ehangach, holistig, mwy perthnasol.

(Siraj-Blatchford, Sylva, et al., 2006: 3)

Nodir, fodd bynnag, bod angen gwella cryn dipyn ar rai o'r meysydd allweddol, er enghraifft, yr angen am '*ddeunydd canllaw clir ar y meysydd dysgu ac addysgeg gysylltiedig, a hyfforddiant wedi'i gynllunio a'i gyllido'n well…'* (ibid: 3). Er y bu croeso pendant i'r cynnig i wella cymarebau staffio, a fyddai ymhen amser yn 1:8 i blant o dan 5 oed ac 1:15 i blant 5-7 oed, roedd awduron yr adroddiad Monitro a Gwerthuso yn nodi pwynt diddorol:

> Mae angen gofalu na ddylid gosod mwy o bwys ar wella cymarebau nag ar sicrhau hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer staff sy'n gweithio mewn ysgolion neu leoliadau. Mae perthynas gryfach rhwng ansawdd darpariaeth a chymwysterau staff na rhwng ansawdd y ddarpariaeth a chymarebau.
>
> (Ibid: 7)

Mae'r cynlluniau yn mynd rhagddynt yn hyderus erbyn hyn gydag amserlen bendant wedi ei chytuno ar gyfer gwireddu'r cynllun cyffrous hwn.

Tabl 3: Amserlen Y Cyfnod Sylfaen

| *Blwyddyn ysgol* | *Carfan* |
|---|---|
| 2005 - 2006 | Plant 3 i 6 oed a rhai plant 7 oed yn yr ysgolion sydd â dosbarthiadau oed cymysg, mewn ysgolion a lleoliadau Peilot yn unig. |
| 2006 – 2007 | Plant 3 i 7 oed mewn ysgolion a lleoliadau Peilot yn unig |
| 2007 – 2008 | Plant 3 i 7 oed mewn ysgolion a lleoliadau Peilot yn unig |
| 2008 – 2009 | Plant 3 i 5 oed ymhob ysgol, lleoliadau gwirfoddol a phreifat a gwarchodwyr plant a ariennir gan yr awdurdod addysg lleol trwy'r Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP), a phlant 5 i 7 oed yn yr ysgolion Peilot. |
| 2009 - 2010 | |
| 2010 - 2011 | Plant 3 i 7 oed ymhob ysgol, lleoliadau gwirfoddol a phreifat a gwarchodwyr plant a ariennir gan yr awdurdod addysg lleol trwy'r PDBCGP. |

Bydd sawl her diddorol yn wynebu darparwyr yng Nghymru yn sgîl gweithredu'r *Cyfnod Sylfaen*: er enghraifft, bydd asesu dogfennol a naratif yn disodli'r asesiadau rhestrau gwirio traddodiadol, ac mae'n bosib mai ôl-gynllunio fydd y norm mewn cyferbyniad â'r blaen gynllunio anhyblyg sydd wedi dominyddu'r degawd olaf a mwy.

## Dechrau'n Deg

Yn Hydref 2005, lansiodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ei rhaglen i blant 0 i 3 oed yng Nghymru sef *Dechrau'n Deg* (*Flying Start).* Mae'n rhaglen uchelgeisiol a fydd yn targedu £46 miliwn o bunnoedd dros y cyfnod 2006/08 at blant a theuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig. Bu rhywfaint o feirniadu ynghylch y dangosyddion amddifadedd a ddefnyddiwyd: mae dewis ardaloedd lle mae dros 45 y cant o blant mewn ysgolion cynradd lleol yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim, yn ddangosydd cyffredinol iawn i fesur materion cymhleth yn ymwneud ag eithrio cymdeithasol. Ond mae'r dull hwn hefyd yn drwsgwl ac anhyblyg, yn fwy addas i ardaloedd trefol nag i ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth yn denau.

Bydd gwasanaethau *Dechrau'n Deg* yn yr ardaloedd targed yn cynnwys gofal plant canolfan-seiliedig rhan-amser i bob plentyn 2-3 oed, cymorth ymwelwyr iechyd, rhaglenni rhianta, llythrennedd cynnar a mentrau 'llyfrau i fabanod'. Y bwriad yw datblygu canolfannau integredig newydd neu ddefnyddio ysgolion cynradd lleol. Bwriad y llywodraeth yw bod *Dechrau'n Deg* yn targedu datblygiad ieithyddol, deallusol, cymdeithasol ac emosiynol y plant sy'n rhan o'r cynllun yn ogystal â'u hiechyd corfforol. Dywedodd y Gweinidog wrth lansio'r cynllun bod

> *Dechrau'n Deg* a'r *Cyfnod Sylfaen* wedi'u cysylltu'n agos iawn. Maent yn darparu cynnig unigryw, wedi'i lunio yng Nghymru i'n plant ifaincaf a'u teuluoedd. Ymhen amser, rwyf yn hyderus y bydd effaith y rhaglenni hyn yn trawsnewid tirlun dysgu yng Nghymru.

Gwelir integreiddio gofal plant, dysgu cynnar, rhianta a gwasanaethau iechyd yn y rhaglen hon fel un weledigaeth gyfannol a fydd yn hybu lles plant yng Nghymru. Er bod pryderon ynglŷn â'i gweithredu, mae *Dechrau'n Deg* wedi'i groesawu'n bennaf fel conglfaen o ran ymdrech LlCC i ddileu tlodi plant.

## Y dyfodol

Mae darpariaeth ar gyfer plant ifainc ar flaen y gad o ran yr agenda gwleidyddol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n bendant i fuddsoddi'n sylweddol yn y maes hwn. Mae'r trafodaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau ar gyfer plant ifainc yn adlewyrchu'r ffocws hwn ar les plant a bod y plentyn yn ganolog i'r

drafodaeth. Disgwylir, er enghraifft, y bydd cynllunio ar gyfer dysgu yn broses mwy deinamig ac y gwneir defnydd ehangach o ddysgu dogfennol ac asesiadau naratif. Bydd athrawon yn datblygu'n arsylwyr mwy gweithredol a byddan nhw'n datblygu'n aseswyr naratif medrus, sy'n gwrando'n ofalus ar blant ifanc. Bydd ticio blychau yn raddol ddiflannu a bydd taflenni gwaith yn dod yn ddogfennau o ddiddordeb hanesyddol.

**Gwefannau defnyddiol:**

Copïau Cymraeg o ddogfennaeth Y Cyfnod Sylfaen):

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/curriculum_and_assessment/arevisedcurriculumforwales/foundationphase/?lang=cy
http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/ (Bwrdd yr Iaith Gymraeg)
http://www.mym.co.uk/ (Mudiad Ysgolion Meithrin)
http://www.jrf.org.uk/ (Sefydliad Joseph Rowntree)
http://www.plantyngnghymru.org.uk/index.html (Plant yng Nghymru)

***Materion i'w trafod ac ystyried ymhellach***

- Gwlad ddwyieithog yw Cymru. Ystyriwch fanteision dwyieithrwydd cynnar a gwerth dwyieithrwydd yn gyffredinol.
- Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn cadw ysgolion bychain ar agor? Ystyriwch faterion megis lles y plentyn, cyfleoedd cyfartal, cynnal iaith a diwylliant, cynaladwyaeth a thrafnidiaeth, a chynllunio cymdeithasol.
- Mae ymchwil yng Nghymru yn awgrymu bod plant sydd yn byw mewn tlodi yn fwy tebygol o fod yn ordew. Ystyriwch y rhesymau dros hyn a goblygiadau tlodi ar fywydau plant.
- Mae Cymru yn falch iawn o'r *Cyfnod Sylfaen.* Ym mha fyrdd y mae'r *Cyfnod Sylfaen* yn wahanol i'r *Foundation Stage* yn Lloegr o ran egwyddor, sail ymchwil, ac agwedd tuag at hybu dysgu plant.